OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1810 (Cy.141)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*5 Gorffennaf 2005*
Yn dod i rym	- -	*8 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 96 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "canolfan gost" ("*cost centre*") yw uned o atebolrwydd ariannol adnabyddadwy o fewn cyfrifon rheoli hawlydd ac sy'n gyfrifol am weithgareddau penodol o fewn sefydliad hawlydd;

ystyr "cost cyfalaf" ("*cost of capital*") yw cost y cyfalaf a gyfrifir drwy gyfeirio at y gyfradd enillion a ragnodir naill ai gan ddeddfwriaeth, neu gan y rheoleiddiwr perthnasol o ran gweithgareddau rheoleiddiedig yr hawlydd (p'un a yw'r gwaith am dâl yn un o'r gweithgareddau hynny ai peidio) neu, os na ragnodir cyfradd o'r fath, drwy gyfeirio at gyfradd sy'n ddau y cant yn uwch na chyfradd ddisgownt y sector cyhoeddus fel a bennir gan y Trysorlys o bryd i'w gilydd;

ystyr "costau" ("*costs*") yw costau neu dreuliau y cyfeirir atynt yn adran 96(1) o'r Ddeddf fel rhai y mae modd i awdurdod, corff neu berson eu hadennill o dan Ran III o'r Ddeddf;

ystyr "costau uniongyrchol" ("*direct costs*") yw'r costau hynny a ddisgrifir yn rheoliad 5;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gorbenion" ("*overheads*") yw'r costau hynny a ddisgrifir yn rheoliad 6;

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

ystyr "gwaith am dâl" ("*chargeable job*") yw gwaith y mae modd adennill ei gostau o dan ddarpariaethau Rhan III o'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaethau cymorth" ("*support services*") yw gwasanaethau a ddarperir oddi fewn i sefydliad er mwyn cynorthwyo gweithgareddau sy'n mynd i gostau uniongyrchol;

ystyr "gweithgareddau rheoleiddiedig" ("*regulated activities*") yw gweithgareddau a awdurdodir neu a reoleiddir gan drwydded ac a oruchwylir gan y rheoleiddiwr perthnasol;

ystyr "hawlydd" ("*claimant*") yw awdurdod, corff neu berson sydd â'r hawl i adennill costau o dan Ran III o'r Ddeddf;

ystyr "rheoleiddiwr perthnasol" ("*relevant regulator*") yw person, sy'n annibynnol ar yr hawlydd, ac sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau rheoleiddiedig yr hawlydd a sicrhau bod yr hawlydd yn cydymffurfio â thelerau'r drwydded sy'n awdurdodi'r gweithgareddau hynny; ac

ystyr "trwydded" ("*licence*") yw unrhyw ffurf ar awdurdodiad, caniatâd, neu benodiad sy'n awdurdodi'r hawlydd i gynnal gweithgareddau rheoleiddiedig.

Sail adennill

3. Y sail y mae symiau o gostau i'w cyfrifo arni yw'r sail a roddir yn narpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

Costau

4.—(1) Y costau fydd costau uniongyrchol a gorbenion i'r graddau y mae'r costau uniongyrchol hynny a'r gorbenion hynny yn berthnasol i waith penodol am dâl a chyfrifir hwynt yn unol â'r polisïau ariannol a fabwysiedir gan yr hawlydd i ddatgan canlyniadau ariannol y canolfannau cost sy'n gyfrifol am y gwaith am dâl neu am ddarparu gwasanaethau cymorth i'r canolfannau hynny.

(2) Pan fo modd adennill costau yn unol â Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005(**3**) ("Rheoliadau 2005") mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r graddau y mae'r costau yn "gostau caniatadwy" fel a ddiffinnir yn rheoliad 2(2) o Reoliadau 2005.

(3) Bydd modd adennill y costau naill ai fel costau uniongyrchol o dan reoliad 5 neu fel gorbenion o dan reoliad 6, ond nid fel y ddau.

(4) Bydd y costau'n glir o unrhyw ddisgownt neu ad-daliad a ganiateir i'r hawlydd.

Costau Uniongyrchol

5. Mae costau uniongyrchol yn gostau yn unrhyw un o'r pum dosbarth a bennir isod—

(a) cost staff (p'un a ydynt yn cael cyflog ai peidio) a gyflogir yn uniongyrchol gan yr hawlydd ac a gyfrifir yn unol â rheoliad 7;

(b) y costau sy'n daladwy i gontractiwr y mae'r hawlydd yn ei gymryd ymlaen;

(c) costau deunyddiau;

(ch) cost hurio cyfarpar, peiriannau a cherbydau neu, pan fo'r cyfarpar, y peiriannau neu'r cerbydau yn cael eu lesio i'r hawlydd, y gost gyfatebol seiliedig ar raddfeydd perthnasol y farchnad; a

(d) costau eraill sy'n berthnasol ac yn benodol briodoladwy i waith am dâl.

(**3**) O.S. 2005/1721 (Cy.133).